

NEWYDDIAN Aber

*Aberystwyth... un o'r llefydd gorau
yn y byd i fod yn fyfyrwr*

RHIFYN 19
Hydref 2014



Aelodau o dim Aber870

Her Staff Aber870

I ddathlu ail ben-blwydd agor Llwybr Arfordir Cymru, ymunodd staff o bob rhan o'r Brifysgol â Her Aber870 rhwng Mai a Gorffennaf.

Cymerodd 61 aelod o staff ran yn yr her, gan ymrwymo i naill ai nofio, beicio, cerdded, neu redeg pellter o'u dewis.

Trefnwyd yr her i godi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru, Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor ar gyfer 2013/14. A hithau yn ei thrydedd flwyddyn, nod Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor yw codi arian hanfodol ar gyfer achos teilwng.

Wrth siarad am Her Aber870, meddai Jackie Sayce, un o'r cydlynwyr: "Y bwriad oedd i bawb deithio pellter o'u dewis a fyddai, gyda'i gilydd, yn gyfwerth â hyd arfordir Cymru, 870 milltir, a'r targed o ran codi arian oedd £870. Chwalwyd y ddau darged yn deilchion, gan deithio bron iawn 10,000 milltir a chodi bron £1,000.

"Bu ambell gydweithiwr yn ddyfeisgar iawn wrth gyfrif y milltiroedd, gan gynnwys torri porfa, sbinio, gwthio pram a marchogaeth ceffyl.

"Er bod yr her ychydig yn gystadleuol, hwyl ydoedd yn y pen draw, ac ymdrech y tîm cyfan oedd fwyaf pwysig. Gobeithiwn adeiladu ar lwyddiant Aber870 trwy drefnu mwy o fentrau dan arweiniad staff yn y dyfodol – croesewir pob awgrym!"

Yr elusen sydd wedi ei dewis ar gyfer 2014/15, yn dilyn pleidlais gan staff a myfyrwyr, yw Bad Achub Aberystwyth a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI). Mae'r Brifysgol yn edrych ymlaen at gael gweithio gyda Bad Achub Aberystwyth a thîm yr RNLI yn ystod y flwyddyn a ddaw.

2 Ysgol Fusnes y
Flwyddyn

2014
THE AWARDS
SHORTLISTED
BUSINESS SCHOOLS OF THE YEAR

5 'Graddedigion'
ifanc yn dathlu symud
i'r ysgol gynradd



8 'Ar ôl Blwyddyn'
Uchafbwyntiau
2013-14



10 Opera sebon ac
argyfwng y
llyfrgelloedd



17 Pwy yw Pwy?



Cyhoeddir **NEWYDDIAN Aber** gan y **Tim Cyfathrebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 622946.

E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o **NEWYDDIAN Aber** ar gael ym mis **Ionawr 2015**.

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 17 Tachwedd 2014**.

NEWYDDION



Haf o ddysgu yn Aber

Tra byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn dueddol o gymryd hoe oddi wrth eu hastudiaethau, dewisodd 79 myfyriwr ifanc ddewis mynychu chwe wythnos o ddarlithoedd, ymchwil a chyflwyniadau ym Mhrifysgol Haf Aberystwyth.

Mae Prifysgol Haf yn rhaglen ehangu mynediad sydd wedi'u hanelu at bobl sy'n 17 oed neu'n hŷn ac sy'n medru arddangos ymroddiad a dyfalbarhad i gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. Maent yn byw a / neu'n mynychu'r ysgol mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf Cymru, neu fe ddônt o gefndir gofalwr / darparwr gofal, neu nhw yw'r cyntaf o'u teuluoedd neu eu cymunedau i fynd i brifysgol.

Yn ôl Rheolwr Prifysgol Haf Aberystwyth, Dr Debra Croft, cryfder y cynllun yw ei fod yn caniatáu i grŵp mawr o fyfyrwyr i ddod ynghyd am amser estynedig lle cânt astudio pynciau o'u dewis hwy, wedi'u dysgu gan academyddion yn yr Adrannau, gan efelychu bywyd prifysgol ym mhob modd posibl.

Ysgol Rheolaeth a Busnes ar y rhestr fer Ysgol Fusnes y Flwyddyn

Mae'r Ysgol Rheolaeth a Busnes wedi cyrraedd rhestr fer Gwobr Ysgol Fusnes y Flwyddyn yng Ngwobrau 2014 y *Times Higher*.



Am 10 mlynedd, mae'r Gwobrau wedi darparu llwyfan i brifysgolion a cholegau yn y Deyrnas Gyfunol i ddathlu'r timau a'r unigolion gorau mewn addysg uwch, a'r sefydliadau mwyaf llwyddiannus. Mae'r gwobrau yn cydnabod talent eithriadol, ymroddiad ac arloesedd, o ymchwil i ehangu cyfranogiad, dysgu i entrepreneuriaeth.

Bydd enillwyr Ysgol Fusnes y Flwyddyn yn cael eu datgelu mewn seremoni wobrwyo fawreddog ddydd lau 27 Tachwedd yng Ngwesty Grosvenor House yn Llundain.

PRIFYSGOL **ABERYSTWYTH** UNIVERSITY www.aber.ac.uk/cy/sell

Cyrsiau Dysgu Gydol Oes

Rhaglen newydd ehangach o gyrsiau ar agor i staff a myfyrwyr PA
Cofrestrwch Nawr i Sicrhau Eich Lle!

CYSYLLTWCH Â NI NAWR I GAEL COPI O

Dysgu am Oes

Ffôn: 01970 621580
www.aber.ac.uk/cy/sell
learning@aber.ac.uk

Addysg Uwch yn y Gymuned
Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
School of Education & Lifelong Learning

PRIFYSGOL **ABERYSTWYTH** UNIVERSITY www.aber.ac.uk/sportscentre

Prif Ganolfan Ffitrwydd Canolbarth Cymru

- 3 Campfa
- Theatr
- Gardiofasgwlaidd
- Stiwdio Sbinio
- Pwysau Rhydd
- Ystod o ddsbarthiadau ymarfer corff
- Pwll nofio a sawna
- Hyfforddiant Personol
- Neuaddau Chwaraeon
- Caeau Chwarae
- Wal Ddringo
- Cae Pob Tywydd
- Cae 3G gyda Llifoleuadau
- Gweithgareddau i Blant
- Trac Rhedeg 400m

Mae'r pwll nofio **NAWR AR AGOR** i'r rhai nad ydynt yn aelodau

Aelodaeth fisol ar gael
Ffôn: 01970 622280
E-bost: sports@aber.ac.uk

COLOFN YR IS-GANGHELLOR

Dyma bob amser un o'm hoff gyfnodau yn ystod y flwyddyn pan fyddwn yn croesawu ein myfyrwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Yn ymuno â ni eleni bydd y nifer ryfeddol o 32 o israddedigion newydd o'n Prifysgol Haf – 23 o garfan 2013, 3 o 2012 a 6 yn dod yn syth o raglen 2014 (mae mwyafrif myfyrwyr y Brifysgol Haf yn dychwelyd i'r ysgol neu'r Coleg, felly gallwn ddisgwyl nifer sylweddol yn fwy o raglen 2014 y flwyddyn nesaf). Yn gynharach y mis hwn roeddwn i wrth fy modd yn derbyn gwybodaeth gan Debra Croft yn CWPSI, y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol, am gyrchfannau ein carfan Prifysgol Haf 2013. Allan o raddedigion Prifysgol Haf y llynedd mae 57, neu 69%, eisoes wedi sicrhau lle mewn Addysg Uwch, gyda 3 yn dilyn prentisiaethau a 4 wedi sicrhau swyddi. Mae 16 o bobl ifanc yn dychwelyd i'r ysgol neu'r Coleg am flwyddyn ychwanegol, felly byddwn eto'n disgwyl y bydd y 69% sy'n dechrau ar Addysg Uwch yn cynyddu yn haf 2015.

Rydyn ni hefyd wedi cael ymgyrch Glirio hynod o lwyddiannus, a gwyddom oddi wrth yr hyn a glywsom na fyddai rhai myfyrwyr sydd newydd gyrraedd Aberystwyth wedi troi at addysg uwch o gwbl oni bai am y cyswllt a gawsant gyda ni drwy'r broses Clirio neu yn syth cyn diwrnod y canlyniadau. Dengys hyn sut y gall y Brifysgol fod yn hyblyg pan yn wynebu ymddygiad pur wahanol, gan ymgeiswyr (sydd yn gynyddol yn ymgeisio am y tro cyntaf ar ôl derbyn eu canlyniadau), a phrifysgolion eraill. Eleni rydyn ni wedi gweld ymgeiswyr yn derbyn cynigion yn ystod Clirio ac yna'n dewis Aberystwyth mewn modd a ystyriwyd a gofalus, yn aml yn dilyn ymweliad – felly, unwaith eto, llawer o ddiolch i bob un fu'n ymwneud â hyn.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i ni barhau i fod yn hyblyg gan fod hyd yn oed fwy o newidiadau ar yr agenda y flwyddyn nesaf. Mae'r cyfyngiad ar recriwtio myfyrwyr wedi ei ddiddymu'n llwyr yn Lloegr yn 2015-16, sy'n golygu y bydd o leiaf 30,000 yn rhagor o leoedd ar gael dros y Bont; ac mae

ymddygiad ymgeiswyr yn parhau i newid a demograffeg yn dangos gostyngiad yn nifer y bobl 18 oed tan tua 2020. Recriwtio fydd gwaith pawb yn y dyfodol rhagweladwy!

Felly, croeso i'r byd newydd – sydd hefyd yn golygu bod Aberystwyth yn mynd allan i rannau o'r byd na chafodd fawr o gysylltiad â hwy o'r blaen. Mae ein gweithgaredd entrepreneuriaidd yn cynyddu'n fisol, ac yn dod yn rhan llawer pwysicach o'n portffolio. Dylech ddisgwyl clywed mwy yn ystod y flwyddyn sydd ar ddod am weithgarwch Aberystwyth yn Llundain; am ein rhaglen Sylfaen yn Dubai; a'n hystod gynyddol o bartneriaethau rhyngwladol. Ond y newyddion mwyaf o ddigon yw Mauritius – mae ein partneriaid wedi bod yn ymweld ag Aberystwyth yn ystod yr haf, yn cwrrd â'n tîm Mauritius hynod o weithgar ac ymroddedig. Mae ein campws cangen yn cael ei godi ar hyn o bryd, ac rydyn ni'n ddiweddar wedi derbyn y newydd ardderchog bod Comisiwn Addysg Drydyddol Mauritius wedi cymeradwyo ein rhaglenni arfaethedig yn llawn. Mae Mauritius yn estyn croeso cynnes i fyfyrwyr rhyngwladol, ac mae'n marchnata ei hun fel yr economi gefnforol (gwych ar gyfer cysylltiadau ymchwil gyda IBERS), ac fel y porth newydd i Affrica. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld rhagor o'n meysydd pwnc yn cymryd rhan yn y dyfodol, ac i weld a yw machlud haul Cefnfor India i'w gymharu â'r un sy'n fy wynebu nawr dros Fae Ceredigion...



Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor

Dysgwch fwy am eich opsiynau ôl-raddedig yn y

Ffair Astudiaethau
Uwchraddedig

Dydd Mercher, 12th Tachwedd 2014

- Cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr Aber
- Llety Gwarantedig (nifer o neuaddau unigryw ar gyfer ôl-raddedigion)
- Cyfle i gwrdd â'r Staff Dysgu, Swyddfa Derbyn, a goruchwylywyr PhD posibl

Buddsoddi
ynoch

chi

Am ragor o fanylion, cysylltwch â: diwrnodagored@aber.ac.uk



Aberystwyth University: Prospective Postgrads



@PrifAber_Uwch

Ffurflen archebu: www.aber.ac.uk/cy/postgrad/postgraduate-open-days

O bedwar ban y llyfrgell

Mae hi'n tynnu at derfyn haf ac mae'r olygfa tua'r gorllewin o Lefel F Llyfrgell Hugh Owen dros y dref heibio i'r Hen Goleg ac ar draws ysblander glas Bae Ceredigion yn ddigon o ryfeddod.

Ond i'r tîm Rheolir Casgliadau, fodd bynnag, does dim amser i sefyll a syllu. Yn ystod yr haf maent wedi mynd i'r afael â phrosiect aildrefnu anferth i ryngffeilio llyfrau cwarto (neu orfaint) yn ôl eu prif bynciau, llyfrau a oedd cyn hynny ar silffoedd ar wahân.

Digon hawdd, meddech chi. Dim ond mater o symud ychydig lyfrau o gwmpas a darparu lle ar gyfer y llyfrau mwyaf. Gwaith ychydig funudau. Ond, wrth gwrs, dyw pethau ddim mor hawdd â hynny.

Mae'r llyfrau mwyaf yn rhy dal i ffitio'r fframwaith saith silff ar Lefel F. Felly, roedd yn rhaid ailfodelu'r silffoedd yn fformat chwe silff i gynnwys y llyfrau gorfaint.

Am faint o silffoedd rydyn ni'n sôn, tybed??

Wyth mil metr a hanner.

Fe ddyweda i hynny unwaith eto: wyth mil metr a hanner o silffoedd.

Byddai'n cymryd tua phum munud ar hugain i Mo Farah redeg y pellter yna, neu os hoffech chi edrych arni mewn ffordd arall, pe bai'r llyfrau'n cael eu pentyrru i orwedd yn benben, byddent yn cyrraedd yn uwch na Mynydd Everest. Ac, wrth gwrs, cyn y gellid aildrefnu'r silffoedd roedd yn rhaid tynnu'r holl lyfrau oddi arnynt yn gyntaf.

A dyma i chi ragor o ystadegau. Yn ystod yr wyth wythnos o weithio, symudodd y tîm tua 252,000 o lyfrau a 63,000 o gylchgronau. Cyfanswm o 315,000 o eitemau a symudwyd oddi ar y silffoedd ac a ddychwelwyd i'r silffoedd ar ôl hynny.

Felly beth oedd y rheswm dros ymgymryd â'r dasg anferth hon?



Dyma i chi rnghraifft. Pe baech chi am edrych ar lyfr Keith Roberts ar Edgar Degas, byddech yn gweld oddi wrth Primo bod y llyfr ar Lefel F Llyfrgell Hugh Owen gyda'r Marc Dosbarth HD553.D3.R6 Qto. Ond os na fydech yn gwybod bod 'Qto' ar ddiwedd y Marc Dosbarth yn golygu bod y llyfr yn un gorfaint a chithau'n mynd i'r rhan o'r silffoedd lle cedwid y llyfrau HD fydech chi ddim yn dod o hyd i'r llyfr yno. A hyd yn oed pe baech chi'n gwybod beth oedd ystyr y tair llythyren, fydech chi'n gwybod ar ba silff y cedwid y llyfrau gorfaint?

Cyn yr aildrefnu, roedd yr holl lyfrau gorfaint ar silffoedd ym mhedair cornel Lefel F. Nid oedd llawer o ddefnyddwyr yn gwybod hyn, a hyd yn oed os oeddynt yn gwybod, roedd y llyfrau yn aml yn anodd eu lleoli. Drwy gyfuno'r holl lyfrau safonol a gorfaint yn y prif ddaliadau, bydd y broses o ddod o hyd i lyfrau o hyn ymlaen yn llawer mwy greddfodol ac yn un llawer llai rhwystredig i bob defnyddiwr.

Felly yn uchel yn Llyfrgell Hugh Owen yr haf hwn, tra ei bod yn bosibl bod peth swm curo i'w glywed o bryd i'w gilydd ac i rai o'r byrddau gael eu hawlio ar gyfer storio llyfrau dros dro (fel mae'r llun yn tystio) bydd yr holl gynnwrf wedi bod yn werth y drafferth yn y diwedd.

Wythnos Mynediad Agored Rhyngwladol

Mae'r Wythnos Mynediad Agored Rhyngwladol, 20–26 Hydref 2014, yn cynnig cyfle i'r gymuned academiaidd ac ymchwil ddysgu mwy am fanteision potensial Mynediad Agored – mynediad ar-lein di-gost, di-oed i ganlyniadau ymchwil ysgolheigaidd, a'r hawl i ddefnyddio ac aildefnyddio'r canlyniadau hynny.

Mae gan Mynediad Agored y gallu i drawsnewid y ffordd y mae ymchwiliadau ymchwil a gwyddonol yn cael eu cynnal; gyda chyllidwyr ymchwil a Chynghorau Cyllido fel ei gilydd, yn lansio polisiâu Mynediad Agored yn ddiweddar.

Fodd bynnag, nid yw gweithredu Mynediad Agored heb ei broblemau. Mae gweithgor Mynediad Agored y Brifysgol, y Gwasanaethau Gwybodaeth a'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi, yn gwahodd academyddion ac ymchwilwyr i gyfres o ddigwyddiadau a drefnwyd gydol yr wythnos Mynediad Agored. Mae'r digwyddiadau yn cynnwys:

- Sesiwn Holi ac Ateb gyda Ben Johnson, Ymgynhorydd Polisi Addysg Uwch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, a chynrychiolwyr y gymuned cyhoeddi – Sinema Canolfan y Celfyddydau, bore Gwener 24 Hydref.
- Sesiwn hyfforddi adnewyddu PURE, 12pm Mercher 22 Hydref, Ystafell Hyfforddi Hugh Owen. Gellir archebu lle drwy dudalennau gwe CDSAP.
- Gweithdy hawlfraint cyhoeddiadau ymchwil gyda Rheolwr Gwarchod Data a Rheolwr Hawlfraint Prifysgol Aberystwyth, Dr Jonathan Davies; anfonwch atom drwyddedau / cytundebau hawlfraint y gofynnwyd i chi eu harwyddo pan yn cyhoeddi erthyglau neu dewch â hwy gyda chi.

Anfonwch drwyddedau (neu sgrinluniau o drwyddedau) ac unrhyw gwestiynau i openaccess@aber.ac.uk

NEWYDDION

Agor canolfan i ddatblgu deunyddiau dysgu ac addysgu newydd

Mae canolfan newydd sy'n hwyluso creu adnoddau dysgu amlgyfrwng gan ddefnyddio sain creu, fideo ac animeiddio i wella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyriwr, wedi cael ei hagor gan Brifysgol Aberystwyth.

Mae'n darparu hyfforddiant i aelodau o staff ar sut i ddefnyddio technoleg yn effeithiol, ac yn cynnig lle i gyfnwid syniadau a rhannu arfer da mewn dysgu ac addysgu.

Mae'r cyfleusterau yn cynnwys labordy cyfryngau a stiwdio recordio, ac offer megis camerâu, camerâu fideo a microffonau, a gellir eu defnyddio a'u benthyg gan staff i helpu gyda chyflwyno darlithoedd, ymchwil neu gyflwyniadau.

Mae'r buddsoddiad gwerth £200,000 wedi ei gyllido gan y Brifysgol a'r Porth Dysgu CADARN, sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso dysgu a gyfoethogir gan dechnoleg ar daws sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Mae'r Academi wedi cael ei datblygu i raddau helaeth mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, yr Arolwg Defnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth ac astudiaethau profiad y dysgwyr a gynhaliwyd yn 2010 a 2013.

Fe wnaeth y myfyrwyr a gymerodd ran yn yr arolygon ddweud yn glir eu bod yn chwilio am fwy o fideo a sain, a phrofiad dysgu rhithwir a rhyngweithiol mwy cyfoethog.

Gan gydnabod pwysigrwydd adborth y myfyrwyr, mae'r Academi hefyd yn sefydlu fforwm lle bydd myfyrwyr yn gallu rhoi eu barn ar

'Graddedigion' ifanc yn dathlu symud i'r ysgol gynradd

Ar 18 Gorffennaf bu'r Brifysgol yn dathlu ei 'graddedigion' ieuengaf erioed pan wisgwyd pedwar plentyn ym Meithrinfa Penglais, sy'n rhan o Ofal Plant Prifysgol Aberystwyth, mewn gynau graddio porffor bychan a chapiau academaidd yn y dathliad cyntaf o'i fath ar gyfer plant sy'n symud o'r feithrinfa i'r ysgol fawr.

Gwahoddodd Lorenzo Pretta (4), Amelie Hamilton-Frisby (3), Oscar Kelsey (3) a Ruby Evans (4) eu ffrindiau a'u rhieni i'r achlysur a gynhaliwyd yn y feithrinfa.

Mwynhaodd eu cyfeillion a'u rhieni sioe sleidiau o'r plant, adroddiad byr ar bob plentyn a chaneuon yn cael eu perfformio gan y darpar 'raddedigion' cyn iddynt ddod ymlaen y naill ar ôl y llall i dderbyn eu tystysgrifau oddi wrth Faye ap Geraint, rheolwraig y feithrinfa.

Yna aeth y plant, a fydd yn dechrau mewn ysgolion cynradd lleol ym mis Medi, allan i gael tynnu eu lluniau yn yr heulwen hyfryd cyn mwynhau amrywiaeth o ddanteithion, yn cynnwys cacen gaws lemon roedd y grŵp 3+ wedi ei gwneud eu hunain.



Mary Jacob, Cadeirydd y Gweithgor CADARN Prifysgol Aberystwyth, Tom Bartlett, Rheolwr Prosiect y Porth Dysgu CADARN a Karl Drinkwater, Llyfrgellydd yr Adran Seicoleg

ddeunydd newydd, yn rhoi adborth ar fentrau dysgu ac addysgu a chyfrannu syniadau am ddatblygiadau yn y dyfodol.

Dywedodd Mary Jacob, Cadeirydd y Gweithgor CADARN Prifysgol Aberystwyth, "Rydym yn falch iawn o gynnig y ddarpariaeth yma a fydd yn helpu academyddion i gyfoethogi eu haddysgu trwy ddefnyddio cyfryngau a gwella profiad y myfyriwr. Bydd Fforwm yr Academi yn darparu cyfle i unrhyw staff a myfyrwyr sydd â diddordeb i ddod at ei gilydd fel cymuned ymarfer i hybu rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu."

Gellir cael mwy o wybodaeth am yr Academi yma: <http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/Aber+Academy>

Dylai aelodau staff sydd â diddordeb mewn defnyddio'r cyfleusterau, derbyn hyfforddiant, ymuno â Fforwm yr Academi neu siarad â Grŵp E-ddysgu'r Brifysgol am ddatblygu deunydd dysgu, gysylltu â: acistaff@aber.ac.uk



Y 'Graddedigion' Lorenzo Pretta, Amelie Hamilton-Frisby, Oscar Kelsey a Ruby Evans. Llun drwy garedigrwydd y Cambrian News, www.cambrian-news.co.uk

Meddai Anna Evans, arweinydd meithrin, "Roedd y diwrnod yn gyfle rhagorol i dathlu cyraeddiadau pob un o'r unigolion hyn ac i ffarwelio â'r plant y mae llawer ohonynt wedi bod gyda ni ers eu babandod."

Mae'r feithrinfa yn bwriadu parhau i gynnal dyddiau 'graddio' bob tymor ar gyfer pob carfan o blant fydd yn gadael i fynd i'r ysgol fawr.

George Whitefield yn 300

Trefnwyd cynhadledd ryngwladol yng Ngholeg Pembroke, Rhydychen o 25ain i'r 27ain o Fehefin gan y Dr David Ceri Jones o'r Adran Hanes a Hanes Cymru gyda'r bwriad o ailasesu bywyd a chyfraniad George Whitefield (1714-70) ar achlysur trichanmlwyddiant ei eni.



Dr David Ceri Jones

Er ei fod yn llawer llai cyfarwydd heddiw na'i gyfoeswr John Wesley, roedd George Whitefield yn un o'r bobl fwyaf adnabyddus byd Gogledd yr Iwerydd yng nghanol y ddeunawfed ganrf.

Clerigwr Anglicanaidd, o Gaerloyw yn wreiddiol, y taniodd ei bregethu teithiol fudiadau adnewyddol efengylaidd a Phrotestanaidd yn Lloegr, Cymru, yr Alban, Iwerddon a phob un o dair trefedigaeth ar ddeg America, oedd Whitefield.



George Whitefield gan John Russell. Olew ar gynfas a osodwyd ar fwrdd, c.1770 © National Portrait Gallery

Ef oedd un o dadau Methodistaeth, un o sylfaenwyr Methodistaeth Galffnaidd, ac ef hefyd oedd pregethwr teithiol a thrawsiwerydd mwyaf blaenllaw'r mudiad efengylaidd yn ei gyfnod dechreuol.

Câi ei alw ar adegau yn 'Apostol yr Ymerodraeth Seisnig', a chroesodd yr Iwerydd dair gwaith ar ddeg a byddai'n aml yn pregethu yn yr awyr agored i gynulleidfa oedd ymhell dros 20,000 o wrandawyr ym Mhrydain ac yn America.

Gymaint oedd ei enwogrwydd a'i boblogrwydd fel y cyfeiriwyd ato fel 'y gŵr enwog crefyddol Eingl-Americanaidd cyntaf'.

Er hynny bu i'r enwogrwydd a'r bri hwnnw myndro i dealltwriaeth ohono yn ddiweddarach. Daeth yn arwr crefyddol i rai, ond parhaodd yn gnaf ym marn eraill.

Bu ei erthyglau a'i bapurau yn destun sylw golygyddion gorfwdfrydig a oedd yn awyddus i ddathlu ei gyflawniadau, i ddiogelu ei enw da neu i'w boblogeiddio, yn hytrach nag i'w ddeall yn briodol yn ei gyd-destun yn y ddeunawfed ganrif.

Felly mae trichanmlwyddiant geni Whitefield yn amser delfrydol i roi cychwyn ar y broses o ailasesu.

Wedi ei threfnu mewn partneriaeth gyda Canolfan Ymchwil Wesleidd Manceinion, Canolfan Rhydychen ar gyfer Methodistaeth a Hanes Eglwysig a Chanolfan Jonathan Edwards ym Mhrifysgol Iâl, denwyd dros gant o gynrychiolwyr a bron i drigain o siaradwyr o bob cwr o Ynysoedd Prydain,

yr Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd i 'Gynhadledd Trichanmlwyddiant Ryngwladol George Whitefield yn 300'.

Bu'r siaradwyr yn bwrw golwg ar lawer agwedd o fywyd Whitefield, gan gynnwys ei berthynas ag Eglwys Loegr, ei adfeddiant o syniadaeth yr Ymoleuo, ei ddadleuon yn pleidio caethwasiaeth, ei bregethu carismataidd, ei waith yn pleidio diwynyddiaeth Galffnaidd a'i ymarfer o ddiwygiadaeth grefyddol.

Mae'r Dr David Ceri Jones yn egluro: "Mae'r gynhadledd yn nodi cam cyntaf pwysig yn ailasesiad George Whitefield, ond dim ond megis dechrau y mae'r broses. Mae datblygiadau cyffrous pellach i ddod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, datblygiadau lle bydd Aberystwyth yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau ar ddwy ochr yr Iwerydd, fel sy'n gweddu prosiect sy'n canolbwyntio ar archseren drawsatlantig o'r ddeunawfed ganrif fel George Whitefield."

Bydd detholiad o un traethawd ar bymtheg o'r gynhadledd yn cael eu cyhoeddi yn *George Whitefield: Life, Context and Legacy* gan Wasg Prifysgol Rhydychen gyda hyn, ac mae Dr Jones hefyd wedi derbyn grant sylweddol ar gyfer prosiect ymchwil gan Ymddiriedolaeth Leverhulme a fydd, mewn partneriaeth gyda Chanolfan Jonathan Edwards yn Iâl, yn arwain at gynhyrchu'r argraffiad cyntaf o ohebiaeth drawsatlantig Whitefield.

Cyhoeddi Geiriadur Ffrangeg-Cymraeg newydd

Yn sgil ennill grant gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, mae Cyhoeddwr Adnoddau Addysg (CAA), sy'n rhan o Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes Prifysgol Aberystwyth wedi cyhoeddi geiriadur Ffrangeg-Cymraeg newydd.

Bydd Le Nouveau Dico yn adnodd gwerthfawr i bawb sy'n dysgu Ffrangeg neu sydd am ymestyn eu gwybodaeth o Ffrangeg. Bydd yn arbennig o addas ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd, ac yn hanfodol ar gyfer y rheiny sy'n astudio cwrs TGAU Ffrangeg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ceir ynddo adran sy'n canolbwyntio ar ramadeg, gan gynnwys tabl berfau Ffrangeg, ymadroddion sy'n gysylltiedig â'r pynciau sy'n berthnasol i'r cwrs TGAU, yn ogystal â chanllawiau ar sut i ysgrifennu llythyr, e-bost a neges testun.

I gael manylion llawn, ewch i <https://www.aber.ac.uk/cy/caa-catalog/dangos.php?lang=cy&ISBN=9781845215408> neu ffonio wch swyddfa CAA - 01970 622128.



Meirion Davies (YADGO), golygydd *Le Nouveau Dico*, a Delyth Ifan, Golygydd/Rheolwr Project, CAA.

ADNODDAU DYNOL



Llwyddiant Safonau Iechyd Corfforaethol

Mae'r Brifysgol wedi enill Gwobr Efydd yn y Safonau Iechyd Corfforaethol, menter sy'n cael ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru a'r marc ansawdd am hyrwyddo iechyd yn y gweithle yng Nghymru.

Mae sefydliadau yn cael eu hasesu ar draws pedair lefel, o gategoriâu efydd, arian, aur a phlatinwm mewn perthynas â'u hymarferion i hyrwyddo iechyd a lles eu gweithwyr.

Roedd yr adborth a dderbyniodd y Brifysgol oddi wrth yr aseswyr yn hynod o adeiladol: "Mae Prifysgol Aberystwyth wedi rhoi cychwyn cadarn ar y siwrnai Safonau Iechyd Corfforaethol; sylwodd yr aseswyr ar elfennau o feini prawf arian ac aur yn ystod yr ymweliad asesu. Maent yn falch iawn o allu rhoi dyfarniad efydd Safonau Iechyd Corfforaethol i'r Brifysgol ac yn dymuno pob llwyddiant yn eu taith tua'r lefel arian. Da iawn!"

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at y Wobr Arian ac yn gobeithio ennill honno yn y flwyddyn academaidd 2014/15.

Hoffem ddiolch i'r Grŵp Llywio Iechyd Corfforaethol a'r staff sydd wedi gweithio i ennill y wobwr hon a byddwn yn rhoi gwybod i chi sut y maent yn dod ymlaen.

Cydraddoldeb Rhyw

Mae'r Brifysgol wedi derbyn cydnabyddiaeth am ei chynnydd wrth hyrwyddo cydraddoldeb rhyw mewn gyrfaedd o fewn addysg uwch yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi cyflawni lefel Efydd yn Uned Siarter Cydraddoldeb (ECU) yr Uned Herio Cydraddoldeb (GEM) - y cynllun gwobrau cyntaf o'i fath ar gyfer y disgyblaethau hyn.

Yn seiliedig ar egwyddorion hynod llwyddiannus Siarter Athena SWAN ECU ar gyfer menywod mewn gwyddoniaeth, mae'r marc siarter cydraddoldeb rhyw yw mynd i'r afael â'r anghydbwysedd cronig rhwng y rhywiau a thangynrychiolaeth yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.

Y lefel Efydd, y lefel uchaf i'w dyfarnu eleni, yw'r cam cyntaf yn y broses, gan ddangos ymrwymiad cryf i gamau gweithredu penodol ac adeiladu diwylliant a fydd yn gwella cynrychiolaeth, dilyniant a llwyddiant staff a myfyrwyr.

Er bod y siarter yn canolbwyntio'n benodol ar dangynrychiolaeth menywod mewn swyddi uwch, bydd hefyd yn annog cynnydd ar y tangynrychiolaeth o ddynion mewn pynciau megis addysgu a gwaith cymdeithasol ac mae hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r driniaeth annheg a brofir yn aml gan bobl drawsrywiol.

Mae'r ECU sy'n cwblhau fformat y siarter ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar adborth gan gyfranogwyr o'r treial, gyda'r bwriad o alinio yn fwy agos â'r siarter Athena SWAN. Bydd yr holl athrofeidd ag adrannau celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol yn gallu cymryd rhan ym mhroses y marc siarter yn 2015.

Diweddariad Pensiynau

AUPAS

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda'r staff dan sylw a'r Undebau Llafur yr haf hwn daeth Cyngor y Brifysgol i'r penderfyniad anodd y byddid yn cau Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (AUPAS) erbyn 31 Mawrth 2015.

O ganlyniad, mae gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr Undebau Llafur perthnasol yn trafod gydag ymgynghorwyr am ddarparu cynllun amgen addas. Bydd Adran Weithredol y Brifysgol yn ystyried yn ofalus amryw opsiynau a awgrymwyd gan y gweithgor cyn dechrau ar ymarfer caffael eang gyda'r bwriad o gael dewis amgen yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf.

USS

Mae diweddariad ar ddatblygiadau Cynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion yn nodi bod y diffyg ariannol disgwyledig yn ôl prisiant Mawrth 2014 yn debyg o fod yn sylweddol.

Mae prifysgolion y DU, sy'n cynrychioli'r cyflogwyr (150+ o Brifysgolion sy'n aelodau o'r cynllun ar ran staff academaidd a pherthynol) yn dechrau ar ymgynghoriad gyda USS ynglŷn â diwygio buddiant.

Disgwylir y bydd penderfyniad ar newidiadau posibl yn cael eu cymryd ym mis Tachwedd eleni ac mae'n debyg mai un o'r penderfyniadau fydd diddymu'r cynllun Cyflog Terfynol i aelodau presennol yn ei ffurf bresennol.

Yn 2015 ceir ymgynghoriadau gyda chyflogwyr unigol yn ogystal â thrafodaethau gydag Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU), yr Undeb Llafur sy'n cynrychioli mwyafrif o'r rhai yr effeithir arnynt.

Polisiau a gweithdrefnau

Mae'r undebau llafur wedi cytuno ar y polisiau a'r gweithdrefnau canlynol, sy'n berthnasol i'r holl staff.

1. Gweithdrefn Ddisgyblaethol ddiwygiedig i gymryd lle statud 9, rhan III ar gyfer staff academaidd a pherthynol o 1 Awst 2014.
2. Polisi Adeoliad newydd.
3. Gweithdrefn Osgoi Diswyddiad i gymryd lle statud 9, rhan II ar gyfer staff academaidd a pherthynol o 1 Awst 2014.
4. Polisi Cyffuriau ac Alcohol newydd sy'n rhan o'n strategaeth iechyd a lles.

Gellir cael manylion yn www.aber.ac.uk/en/hr/policy-and-procedure/ ynghyd â'r Cydgytundebau.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r polisiau newydd neu ddiwygiedig at eich Rheolwr Adnoddau Dynol: www.aber.ac.uk/en/hr/hr-team/hrmanagers/

YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI

Am flwyddyn! Ers dathlu blwyddyn yn dilyn sefydlu Ymchwil, Busnes ac Arloesi ar 1 Awst, rydym wedi bod yn myfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd gennym, yn gefnogi cydweithwyr ar draws y Brifysgol a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol. Fe welwch rai o'r uchafbwyntiau ar y tudalennau hyn; ond dyma rai o'r prif bethau, yn fy marn i:

- cyflwyno FfRhY2014 ddeuddydd cyn y dyddiad cau (cyhoeddir y canlyniadau ar 18 Rhagfyr 2014)
- cwblhau'r uno rhwng y Swyddfa Ymchwil a'r Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori, yn cynnwys ailstrwythuro i chwe swyddogaeth arbenigol

- ailfywiogi Rhwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth, a chael cynulleidfya wych ar gyfer sgwrs gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Grŵp VW yn y DU ym mis Mai. Mae mwy o sgysiau cyffrous mewn cydweithrediad â'r Ysgol Rheolaeth a Busnes ar y gweill ar gyfer eleni.

Rydym wedi cyflawni tipyn yn ystod y flwyddyn hon o 'ymgartrefu' ac rwy'n hynod falch o'r tîm; mae pob un ohonynt wedi cyfrannu at uno esmwyth a'n llwyddiannau. Bydd llawer o gyfleoedd cyffrous yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi – felly cofiwch gysylltu, yn enwedig os oes gennych adborth neu syniadau yr hoffech eu rhannu.

Gary Reed

Cyfarwyddwr, Ymchwil, Busnes ac Arloesi

'Ar ôl Blwyddyn' Uchafbwyntiau 2013-14

13 o ddatgeliadau
ynghylch dyfeisiadau a phethau
arloesol

1 patent wedi ei gytuno
mewn tiriogaeth dramor

2 drwydded
anghyfyngedig wedi eu
dosbarthu i ddiwydiant

Y Swyddogion Datblygu Ymchwil, gan gynnwys tîm IBERS, wedi cefnogi

>£63 miliwn o geisiadau ymchwil gan
336 o Brif Ymchwilwyr

123 o fyfyrwyr
uwchraddedig

wedi ymgymryd â chynlluniau Meistr / PhD sy'n gysylltiedig â diwydiant trwy raglenni Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) a Mynediad at Feistr.

FfRhY2014 wedi ei gyflwyno ddeuddydd cyn y dyddiad cau swyddogol ac mi roedd yn cynnwys:

- **17 Uned Asesu**
- **1122 albwn ymchwil**
- **23% o gyflwyniadau** ar y cyd â Phrifysgol Bangor
- **77% o holl boblogaeth gymwys y FfRhY** o blith ymchwilwyr PA wedi eu cyflwyno ar gyfer trothwy ansawdd uwch o
- **>2.75 (Cyfartaledd Pwyntiau Graddfa)**
- **50 astudiaeth achos effaith**
- **25 o sesiynau hyfforddi DPP** wedi eu datblygu, eu trefnu a'u cynnal;
- **259 cynrychiolydd** o amrywiaeth o fusnesau / sefydliadau yn bresennol
- **404 cytundeb cyfreithiol** wedi eu hadolygu
- **>2300** o fyfyrwyr, graddedigion, staff a gwahoddedigion allanol **wedi mynychu digwyddiadau ar y thema ymchwil a menter**
- **Bas-data o 288** o fusnesau sy'n ymwneud â gweithgareddau ymchwil a menter ym Mhrifysgol Aberystwyth (2012 – 2014) wedi ei lunio

YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI

Uchafbwyntiau Digwyddiadau 2013-14

Trefnodd yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi raglen eang o ddigwyddiadau yn cynnwys:

>150 o bobl wedi cymryd rhan mewn **20 o Ddigwyddiadau yn Cnoi Cil ar Hyfforddiant** ar gyfer ymchwilwyr

22 o ymchwilwyr yn gynnar yn eu gyrfa o 6 Athrofa wedi eu dewis i gymryd rhan yn y rhaglen **'Ffatri Grantiau'** a lansiwyd yn ddiweddar

7 digwyddiad yn y **Caffi Ymchwil** **>95 o gynrychiolwyr**

145 o staff a myfyrwyr wedi mynychu **Hyfforddiant ar Foeseg Ymchwil ac Uniondeb Cymeriad**



2 Ddigwyddiad Rhwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth

658 o fyfyrwyr, graddedigion, staff ac eraill sy'n ymddiddori mewn menter wedi mynychu **36 o ddigwyddiadau cefnogi menter**

68 o gydweithwyr yn bresennol yn ystod Ymweliad Blynyddol Swyddfa Ymchwil y Deyrnas Unedig â Phrifysgol Aberystwyth

>1000 o bobl wedi mynychu **12 o Ddarlithoedd Cyhoeddus Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru** dros 9 mis, **a 500 arall yn gwylio'r** darlithoedd o bell

196 o staff wedi mynychu sesiynau hyfforddi yn ymwneud â'r FfRhY, Effaith, Mynediad Agored a PURE

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

Datblygu Ymchwil Rynghdisgyblaethol	Darparu cefnogaeth uniongyrchol i academyddion wrth baratoi a chyflwyno ceisiadau grant ar draws yr holl ddisgyblaethau a chyllidwyr.
Datblygu Busnes	Dod ag academyddion a busnesau ynghyd ar gyfer Menter ac Arloesi. Bod yn weithgar wrth ymwneud â sefydliadau allanol a nodi cyfleoedd cymhwyso ar gyfer Prifysgol Aberystwyth.
Ymchwil, Busnes ac Arloesi: Rheoli Prosiectau a Sicrhau Ansawdd	Monitro perfformiad prosiectau Ymchwil a Menter mawr a rhannu arferion rheoli prosiect da.
FfRhY a Monitro Ymchwil	Rheoli ac adrodd ynghylch gwybodaeth ymchwil er mwyn hybu datblygiad ymchwil rhagorol sy'n cael effaith.
Ymchwil, Busnes ac Arloesi: Cyllid	Estyn cymorth wrth gostio cynigion Ymchwil a Menter. Darparu rheolaeth ariannol o grantiau gyda datganiadau gwariant ac adroddiadau rheolaidd ar gyfer Prif Ymchwilwyr, Athrofeydd a rheolwyr y Brifysgol.
Ymchwil, Busnes ac Arloesi: Contractau a Pholisïau	Adolygu'r contractau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Ymchwil a Menter ar draws y Brifysgol a thrafod gyda phartneriaid.

Mae swyddogaethau gweinyddol a marchnata yn gweithio ar draws yr Adran i gynorthwyo'r gwasanaethau a gynigir i staff, myfyrwyr a chwsmeriaid allanol.

Yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi, Y Ganolfan Ddelweddu, Campws Penglais

01970 622385 – drbi@aber.ac.uk

ERTHYGL NODWEDD



Dr Anoush Simon

Diwylliant poblogaidd yn agor tudalennau ar argyfwng y llyfrgelloedd cyhoeddus

Uwch ddarlithydd yn Adran Astudiaethau Gwybodaeth yw'r Dr Anoush Simon. Mae ei diddordebau ymchwil a dysgu yn canolbwyntio ar effeithiau technoleg ar y gymdeithas, ac yn enwedig y proffesiwn gwybodaeth a'r gymdeithas wybodaeth; ar eithrio cymdeithasol a'r gagendor digidol; ar TGCh a chymunedau; ar rywedd a thechnoleg ac ar yrfaedd a chymhelliant gweithwyr llyfrgelloedd.

A yw operâu sebon yn gallu dweud unrhyw beth o bwys wrthym amdanom ein hunain a'n ffordd o fyw? A ydyn nhw'n cofnodi'r oes sydd ohoni? Rwy'n tybio eu bod yn ceisio gwneud hynny, er y bydd llawer ohonom yn wfftio eu bod yn sothach. Serch hynny byddai gwylwr achlysurol hyd yn oed yn sylwi eu bod, dros y blynyddoedd, wedi trin a thrafod amrywiaeth o faterion llosg, o gaethiwed i gyffuriau, i salwch terfynol, i ffanatigiaeth grefyddol.

Felly, fel llyfrgellydd, ac ymchwilydd Astudiaethau Gwybodaeth, roedd gennyf ddiddordeb mawr yn natblygiad stori ddiweddar ar *Coronation Street*.

Mae daearyddiaeth Weatherfield wedi ymestyn. Daw i'r amlwg fod ganddynt llyfrgell leol – neu roedd ganddynt un. Mae'r cyngor am ei chau ac mae'n rhaid ymgyrchu! Yn gymorth i hyn mae cymeriad newydd wedi ymddangos yn ddiweddar, y llyfrgellydd Yasmeen Nazir sy'n siarad mewn ffordd sy'n ddigon i godi ofn ar bobl. Mae hi'n gyflym yn tynnu'r gwynt o hwyliu deiseb Roy Cropper ac yntau'n llawn bwriadau da, ac mae hi'n dadlau mai gweithredu uniongyrchol yn unig fydd yn ennyn ymateb y cyngor – yn yr achos hwn, y bwriad yw eistedd yn y llyfrgell a gwrthod gadael ar y diwrnod y dylai gau. Mae negeseuon e-bost at gynghorydd lleol, a bygythiad o ymgyrchu drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn sicrhau bod y llyfrgell yn cael ei hachub dros dro. Ond nid yw'r dathliadau yn para'n hir, daw ein harwyr i glywed yn fuan iawn fod y llyfrgell ar dân, rhywun yn dial am eu hymgyrchu fe ymddengys.

Er mai digon annhebygol, rhaid cyfaddef, oedd cael llyfrgell gyhoeddus yn mynd ar dân ar ôl buddugoliaeth Roy a Yasmeen (roeddynt wedi ennill yr hawl i apelio yn erbyn y cau), eto roedd hi'n amlwg fod hyn yn ddyfais er mwyn dod â ni at brif wythien y stori – sef bod caff Roy's Rolls i gael ei ddefnyddio hefyd fel llyfrgell gymunedol (wedi'i rhedeg gan wirfoddolwyr). Credaf fod Roy wedi dod ar ei draws ei debyg deallusol yn Yasmeen, ac mae'n rhaid bod ei llef hithau "[rwy'n] llyfrgellydd profiadol gyda'r holl gymwysterau" ac "roedd hi'n alwedigaeth!" wedi cynhesu calon sawl llyfrgellydd cymwysedig, graddedig, siartredig, angerddol ac ymroddedig.

Yn yr wythnosau diwethaf mae plot y stori wedi mynd ar drywydd straeon llawer mwy dramatig, ond rwy'n gobeithio y bydd hi'n ailgodi yn y dyfodol agos oherwydd llwyddodd i dynnu sylw at rai o'r materion difrifol iawn sy'n wynebu llyfrgelloedd cyhoeddus heddiw. Er enghraifft, mae rhedeg a chynnal llyfrgell wirfoddol yn her enfawr ac yn gyfreithiol gymhleth, ac mae'r farn ynghylch eu llwyddiant, eu dilysrwydd a'u dyfodol yn yr hirdymor ymhell o fod yn glir.

Hefyd yn ystod 4 neu 5 pennod rydym wedi cael cyfeiriadau at y llyfrgell fel lle diogel, lle cymunedol, lle i wneud gwaith cartref ynddo, lle sy'n darparu llyfrau a gwybodaeth i'r bobl hynny sydd wedi'u heithrio yn gymdeithasol; mae'n bont dros y rhaniad digidol, yn ystorfa hanes cymdeithasol, ac yn ffocws i atgofion oes o'i defnyddio.

Fel ymchwilydd, un o'r meysydd y mae gennyf ddiddordeb ynddo yw'r syniad o 'dlodi' gwybodaeth a'r rhaniad digidol – yr effaith ar unigolion, ar gymunedau ac yn wir ar wledydd o beidio â chael mynediad hawdd i wybodaeth o ansawdd uchel. Y dyddiau hyn, mae hyn yn anochel yn cynnwys mynediad i'r rhyngwrwyd ac i'r amrywiaeth gynyddol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael yno.

Enghraifft o hyn yw gwybodaeth y llywodraeth, sy'n gynyddol i'w chael ar-lein ran amlaf. Mae Strategaeth Ddigidol y Llywodraeth yn anelu at fod yn 'ddigidol yn bennaf', h.y. fod pawb sydd angen gwneud cais am fudd-daliadau lles neu fathau eraill o gymorth yn gwneud hynny ar-lein.

Mae hyn yn iawn os oes gennych fynediad cyflym a rhwydd i'r rhyngwrwyd a'ch bod eisoes yn ei ddefnyddio drwy'r amser; mae'n rhwydd iawn meddwl bod hyn gan bawb. Ond mae ymchwil gan Cyngor ar Bopeth yr Alban (<http://www.cas.org.uk/publications/offline-and-left-behind>) wedi dangos mai eu cleientiaid, yr union bobl sydd angen y budd-daliadau hyn, yw'r rhai sydd hefyd fwyaf tebygol o fod â mynediad cyfyngedig i'r rhyngwrwyd, ynghyd â phrofiad a hyder isel i'w ddefnyddio – yn sicr yn is na'r boblogaeth gyffredinol.

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi llyfrgelloedd fel un ffynhonnell cymorth i'r bobl hynny sy'n cael trafferth dod o hyd i'w ffordd drwy'r jyngl chwilio am waith a gwneud cais am fudd-daliadau; pa mor realistig yw hyn yng nghyd-destun toriadau a chau llyfrgelloedd cawn weld – er ein bod yn gwybod bod llyfrgelloedd eisoes yn gwneud gwaith da yn hyn o beth (ac wedi gwneud hynny ers blynyddoedd lawer). Un enghraifft o'r rhychwant o ddosbarthiadau a chefnogaeth sydd ar gael i bobl sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ar-lein yw'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Brifysgol Abertawe (<http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=57117>).

Mae hyn wedi ysbrydoli fy mhrosiect ymchwil presennol (wedi'i ariannu'n rhannol gan Gynllun Gwobr David Hughes Parry y Brifysgol) sy'n ymchwilio i effaith y 'digidol yn bennaf' ar

lyfrgelloedd yng Nghymru. Oherwydd fod hyn yn ganolog ac yn allweddol i gymunedau amrywiol Cymru, mae gennyf ddi-ddordeb yn y math o ymholiadau y mae llyfrgelloedd yn eu derbyn ynghylch y 'digidol yn bennaf', y pryderon sydd ganddynt hwy a'u defnyddwyr, a sut y maent yn ymateb i'r anghenraid gwybodaeth newydd hwn.

Felly mae'r problemau enfawr sy'n wynebu ein llyfrgelloedd cyhoeddus (ac yn wir yr awdurdodau lleol sy'n gorfod gwneud y penderfyniadau anodd hyn), y bygythiad i lyfrgelloedd cymunedol bychain, eu cau yn llwyr, a'r effaith ddinistriol bosibl ar gymunedau neu unigolion yn sgil hynny, wedi bod yn destun trafod ar opera sebon yr oriau brig ar un o'r rhaglenni sy'n cael ei gwyllo fwyaf ar y teledu yn y Deyrnas Unedig. Mae wedi dwyn y mater at sylw amlwg y cyhoedd gan helpu i danlinellu gwerth llyfrgelloedd i gymunedau am amrywiaeth o resymau; ac mae hynny'n galondid mawr i mi.

Erthygl wedi'i haddasu gan flog gwadd a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn: <http://libalyson.wordpress.com/>



NEWYDDION Y MYFYRWYR

Blas ar fywyd myfyrwyr gyda 'Dewch yn Ffres 2014'

Bu'n fis prysur yn yr Undeb wrth inni baratoi i groesawu ein myfyrwyr newydd a threfnu'r Wythnos y Glas brysuraf erioed.



Rhan o waith yr Undeb yw cyfrannu at brofiad y myfyrwyr yma yn Aberystwyth, ac elfen allweddol o hynny yw sicrhau eu bod nhw'n derbyn croeso cynnes a chyfeillgar. Un nod sydd gennym ar gyfer Wythnos y Glas – sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu gweld a chael blas ar bob dim sydd gan fywyd myfyrwyr Aberystwyth i'w gynnig.

Fe wnaethon ni fwrw'r cwch i'r dŵr gyda'r Wythnos Chwaraeon flynyddol, sy'n gyfle i 80 o fyfyrwyr newydd gyrraedd yn gynnar a chael blas ar yr amrywiaeth eang o glybiau chwaraeon sydd ar gael iddyn nhw, a gwneud ffrindiau wrth chwarae.

Ar ddechrau'r tymor, trefnwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau cyflwyno i helpu myfyrwyr i ganfod eu ffordd, gan gynnwys cyflwyniad i'r hyn yr ydym ni yn ei wneud yma yn yr Undeb, yn ogystal â digwyddiadau croeso i fyfyrwyr rhyngwladol, uwchraddedig ac aeddfed.

Roedd Ffair y Glas y tu hwnt i bob disgwyl eleni eto, gyda 5000 o fyfyrwyr yn ymweld bob diwrnod. Roedd y Ffair yn cynnig blas ar yr amrywiaeth o glybiau chwaraeon, cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli sy'n cael eu trefnu gan yr Undeb, ac yn gyfle perffaith i fyfyrwyr fwrw iddi'n syth.

Cafwyd nosweithiau prysur o adloniant yn yr Undeb, gydag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau gan gynnwys y Cwis Mawr a Comedy Works, yn ogystal â'r sesiynau clwb a selebs sy'n boblogaidd o hyd.

Bu Arwyr y Glas, ein tîm anhygoel o wirfoddolwyr, yn gwbl allweddol wrth gyflawni hyn i gyd. Mae'r Arwyr hyn – myfyrwyr o'r 2il a'r 3edd flwyddyn gan amlaf – yn aberthu Penwythnos y Glas a sawl diwrnod ar ôl hynny er mwyn gwisgo ein crysau-T Arwyr coch. Drwy gydol y cyfnod hwn, fe welwch chi nhw ar y campws, yn croesawu myfyrwyr newydd, yn eu cyfeirio at leoedd a digwyddiadau penodol ac yn ateb cwestiynau na fyddai neb ond myfyrwyr cyfredol yn gallu eu hateb. Heb amheuaeth, mae'r unigolion hyn yn enghreifftiau disglair o'r myfyrwyr hael a pharod eu cymwynas sydd gennym ni yma yn Aberystwyth.

Jamie Barker -

Rheolwr Marchnata a Chyfaethrebu Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth



Bwyd a Diod



Dillad



Hanfodion

Siop
Undeb y Myfyrwyr

Oriau Agor

Llun-Gwener 8:30-6yh | Sad 11yb-5yh

facebook.com/UMaberSU 01970621725 @union.shop@aber.ac.uk





Yr Athro Neil Glasser

Dod i Nabod.... Yr Athro Neil Glasser

Yn y rhifyn hwn o **NEWYDDICION** Aber, rydym yn sgwrsio â'r Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr yr Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg, ac Athro Daearyddiaeth Ffisegol yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.

Beth yw eich maes academaidd arbenigol?

Mae fy ngwaith ymchwil yn cynnwys sawl agwedd ar newid hinsawdd ac effaith hynny ar lenni iâ, rhewlifoedd a lefel y môr. Bûm yn ddigon ffodus i wneud ymchwil gwaith maes mewn sawl rhan o'r byd gan gynnwys Yr Ynys Las, Antarctica, Patagonia, Gwlad yr Iâ, Norwy, Sweden, Svalbard, yr Andes a Mynyddoedd yr Himalaia.

Beth rydych chi'n ei wneud yn eich gwaith?

Mae'n amrywiol iawn. Mae'r Athrofa hon yn cynnwys Adrannau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Hanes a Hanes Cymru, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a Seicoleg hefyd yn ddiweddar. Roeddwn i'n gyfarwydd iawn â'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear gan mai dyma fy "nghartref" academaidd, ond bu'n rhaid imi ddysgu'n gyflym am waith y tair Adran arall. Mae'n Athrofa fawr – mwy na 120 o staff academaidd amser llawn, mwy nag 20 o staff cynorthwyol a chymuned gref o uwchraddedigion – ac un o'r heriau mwyaf fu ymgyfarwyddo â'r gwaith amrywiol sy'n digwydd yma a sut i ddefnyddio hynny wrth ddatblygu strategaeth academaidd ar gyfer y dyfodol. Mae'n debyg mai gweinyddu academaidd yw fy ngwaith i'n bennaf erbyn hyn, yn hytrach na dysgu neu ymchwil. Rwy'n ffodus iawn fod pobl wych iawn o'm hamgylch, sy'n gwneud fy ngwaith yn llawer iawn haws.

Disgrifiwch ddiwrnod nodweddiadol yn y gwaith.

Yr ymateb ystrydebol, mae'n debyg, fyddai dweud nad oes dim byd tebyg i ddiwrnod nodweddiadol, ond gallaf restru'r math o weithgareddau yr wyf yn eu gwneud. Rwy'n treulio llawer o amser yn cwrdd a siarad â phobl yn ogystal ag ysgrifennu ac ymateb i e-byst, ac rwy'n treulio llawer o amser hefyd mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Gall hyn olygu cyfarfodydd cynllunio, cyfarfodydd i osod ac adolygu cyllidebau, trafod materion Adnoddau Dynol, cyfarfodydd mentora staff, trafod ymholiadau gan fyfyrwyr, neu fynychu paneli penodi a dyrchafu'r Brifysgol a nifer o bwyllgorau eraill yn y Brifysgol.

Rwy'n aelod o Goleg Adolygu Cymheiriaid Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC), felly rwy'n treulio tipyn o amser yn adolygu ceisiadau grantiau ymchwil. Rwyf hefyd yn olygydd dau brif gyfnodolyn academaidd (*Journal of Glaciology* a *Quaternary Science Reviews*) sy'n hawlio cryn dipyn o amser; darllen llawysgrifau, dod o hyd i bobl i adolygu'r llawysgrifau, trafod gydag awduron a gwneud penderfyniadau ynghylch papurau.

Mae gennyf nifer o fyfyrwyr PhD sydd ar wahanol gyfnodau yn eu hastudiaethau, felly rwy'n cynnal cyfarfodydd cynnydd gyda nhw yn rheolaidd ac yn treulio amser yn darllen a chynnig sylwadau ar eu gwaith. Mae fy ngwaith ymchwil mewn Rhewlifeg yn parhau yn ogystal. Rwy'n cydweithio ar sawl papur ymchwil ar hyn o bryd, yn llunio cais grant ymchwil i ariannu fy ngwaith ymchwil yn Antarctica, ac rwy'n aelod o'r prosiect newydd 'MAGIC-DML', prosiect ar y cyd rhwng Sweden, y DU, UDA, Norwy a'r Almaen, fydd yn edrych ar dewdra iâ fertigol y gorffennol yn ardal Dronning Maud Land (DML) yn Antarctica.

Beth ydych chi'n hoffi ei wneud yn eich amser hamdden?

Mae treulio amser gyda fy nheulu yn bwysig i mi. Rwy'n byw ar lan y môr yn Aberystwyth ac rwy'n treulio llawer o'm hamser hamdden allan yn yr awyr iach yn tynnu lluniau o'r machlud haul ar y traeth, yn mynd ar deithiau gweryslla a beicio mynydd, neu gerdded yn y bryniau neu yn Ynys Las. Rwy hefyd wrth fy modd â phêl-droed, er yn ddiweddar rwy wedi gwyllo mwy nag rwy wedi chwarae....



Rhewlif San Rafael ym Mhatagonia



Rhewlif San Rafael ym Mhatagonia

Penodiadau

ADRAN SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL



Penodwyd **Dr Louise Marshall** yn Bennaeth yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Tan yn ddiweddar hi oedd Cyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig yn yr Athrofa Llenyddiaeth, leithoedd a'r Celfyddydau Creadigol ac mae ei gwaith academiaidd yn canolbwyntio ar Lenyddiaeth yr Adferiad a'r Ddeunawfed Ganrif. Mae'n cymryd yr awenau oddi wrth Dr Elisabeth Salter sydd wedi symud i Brifysgol Hull i fod yn Athro Saesneg a Phennaeth yr Adran Saesneg.

ADRAN SEICOLEG

Penodwyd **Dr Nigel Holt** yn Bennaeth yr Adran Seicoleg. Tan yn ddiweddar roedd Dr Holt yn Gyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol ac Allanol yn Athrofa'r Gwyddorau Dynol ac yn Uwch Ddarlithydd mewn Seicoleg. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng sain a gwahanol agweddau ar wybyddiaeth gan gynnwys cof, sylw a pherfformiad. Mae'n cymryd yr awenau oddi wrth yr Athro Kate Bullen sydd wedi'i phenodi'n Gyfarwyddwr Moeseg a Chydraddoldeb y Brifysgol.

ADRAN MATEMATEG

Mae'r **Athro Simon Cox** wedi ei benodi yn Bennaeth yr Adran Fathemateg. Mae diddordebau ymchwil yr Athro Cox yn cynnwys morffoleg fiolegol, draenio ewyn a rheoleg ewyn. Daw ei benodiad yn sgil sefydlu Mathemateg fel adran academiaidd ar wahân o fewn yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg.

ADRAN ASTUDIAETHAU THEATR, FFILM A THELEDU

Penodwyd **Dr Anwen Jones** yn Bennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu. Tan yn ddiweddar hi oedd Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Adran, ac mae'n Gadeirydd cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys theatr genedlaethol yng Nghymru yn y cyd-destun Ewropeaidd, drama Ffrangeg, a drama a theatr yng Nghymru ac yn y Gymraeg. Mae Dr Jones yn olynu Dr Jamie Medhurst.

YMCHWIL, EFFAITH A RHAGORIAETH

Mae'r **Athro Colin McInnes** o'r Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol wedi cael ei benodi yr Athro Ymchwil, Effaith a

Rhagoriaeth newydd. Bydd y rôl newydd yn cynnwys hyrwyddo rhagoriaeth ymchwil ar draws y Brifysgol ac yn benodol monitro, cynghori a pharatoi Athrofydd ac Adrannau Aberystwyth ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf (REF) yn 2020.

ADRAN IECHYD, DIOLGELWCH A'R AMGYLCHFYD

Penodwyd **Andy Wainwright** yn Ymgynghorydd Diogelwch Tân y Brifysgol. Mae gan Andy 25 mlynedd o brofiad fel Swyddog Tân gyda Sir Gaer ac yn ddiweddar gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae ganddo radd mewn Peirianeg Tân a chymwysterau mewn iechyd a diogelwch, gwaith ymchwilio uwch a gosodiadau trydanol. Mae'n aelod gweithgar o'r Sefydliad Peirianwyr Tân ac mae'n cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru ar Gyngor Peirianwyr y DU.



Ymddeoliadau

Ymddeolodd Dr Hywel Davies



ym Mehefin fel Cyfarwyddwr Denu a Derbyn, ar ôl 34 mlynedd o wasanaeth diwyd i Aberystwyth. Nid anghofir ei ffyddlondeb a'i ymrwymiad difeth gan ei

gydweithwyr a fu'n gweithio gydag ef drwy'r blynyddoedd. Fel siaradwr cyhoeddus profiadol ac ysbrydoledig bydd Hywel yn parhau i chwifio baner Addysg Uwch yng Nghymru a bydd ganddo hefyd amser i ddilyn llawer o'i ddiddordebau eraill. Pob dymuniad da i ti am dy ymddeoliad Hywel.

Ymddeolodd Dr Russell Davies

yn ddiweddar o'i swydd fel Rheolwr Marchnata'r Brifysgol. Ar ôl 31 mlynedd o wasanaeth yn Aberystwyth, gan gynnwys peth amser a dreuliodd yn darlithio yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru.



Mae Russell yn bwriadu treulio'r ychydig fisoedd nesaf yn ysgrifennu rhagor o lyfrau ar hanes cymdeithasol Cymru, ac mae'n edrych ymlaen at dreulio amser gyda'i deulu ac i gynnal ei ddiddordeb mewn peintio, ffotograffiaeth a garddio. Gobeithio y bydd dy ymddeoliad yn un maith a hapus Russell.

Ymddeolodd Mrs Jane Watts



o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ar ddiwedd Awst ar ôl 38 mlynedd o wasanaeth ym Mhrifysgol

Aberystwyth. Dechreuodd Jane weithio yng Nghofrestrfa'r Brifysgol yn 1976 ac ymunodd â'r Adran Botaneg a Microbiolog yn 1982. Gweithiodd i saith o Gyfarwyddwyr y Gwyddorau Biolegol yn y Brifysgol cyn dod yn Bennaeth gweinyddol IBERS pan y'i ffurfiwyd yn 2008. Ymddeoliad hapus Jane.

Marwolaethau

Yr Athro Dave Barnes (1955 - 2014)

Roedd Dave Barnes yn Athro Roboteg y Gofod a'r Planedau yn yr Adran Gyfrifiadureg.

Yn wreiddiol o Blackburn, graddiodd o Brifysgol Bradford (1980) cyn mynd ymlaen i gwblhau gradd Meistr mewn Deallusrwydd a Roboteg Beirianyddol o Goleg y Frenhines Mary, Prifysgol Llundain, ac yna Doethuriaeth mewn Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg yma yn Aberystwyth yn 1985.

Chwaraeodd Dave rôl allweddol yn natblygiad y fraich robotig a oedd yn rhan o daith Beagle 2 i'r blaned Mawrth a bu'n gweithio'n agos gyda'r diweddar Athro Colin Pillinger.

Roedd Dave yn aelod o Bwyllgor Cynghori Aurora Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg y Deyrnas Gyfunol (AurAC) ers 2005, ac roedd yn cynrychioli buddiannau cymuned Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Peirianyddol a Ffisegol ar faterion yn ymwneud â Rhaglen Ymchwil i'r Planedau Aurora yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd.

Roedd yn aelod ac yn un o sefydlwyr Rhwydwaith Roboteg y Gofod a'r Planedau y Deyrnas Gyfunol, ac yn aelod o Bwyllgor Gwyddoniaeth Ffiseg Gronynnau, Seryddiaeth a Ffiseg Niwclear Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg y Deyrnas Gyfunol - PANN.

Roedd yn aelod o dîm Crwydryn ExoMars yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, ac yn ymchwilio i ddulliau caffael samplau gwyddonol ymreolaethol ar gyfer taith ofod ExoMars yn 2018.

Roedd yn Gyd-ymchwilydd ar Gamera Panoramig y daith (PanCam). Fel aelod o'r Tîm Golwg 3D PanCam, roedd ei gyfrifoldebau'n cynnwys modelu, efelychu, prosesu data delweddu a delweddu data gwyddonol PanCam.

Yn fwy diweddar, bu'n ganolog i ddatblygiadau cychwynnol y cynllun Gofodborth arfaethedig drwy ei waith gyda Phartneriaeth Academaidd y Gofod Cymru.

Bu farw Yr Athro Dave Barnes ar 25 Gorffennaf 2014, yn 58 mlwydd oed.



Geoff Constable (1957 - 2014)

Ymunodd Geoff Constable â'r Brifysgol yn 1995, gan gyflawni sawl swyddogaeth yn ystod y pedair blynedd ar ddeg hynny. Yn fwyaf diweddar, ef oedd Swyddog Cyswllt Porth Dysgu CADARN sy'n cael ei ariannu gan CCAUC ac sy'n brosiect cenedlaethol yn gweithio gyda staff academaidd sy'n creu cyfryngau addysgiadol i ysbrydoli myfyrwyr newydd i ddod i addysg uwch.

Roedd Geoff yn athro cymwysedig ac yn raddedig o Brifysgol Caint, Caergaint a Phrifysgol Aberystwyth, lle cwblhaodd MSc mewn Cyfrifiadureg yn 1994.

Ymunodd Geoff â'r Adran Gyfrifiadureg yn 1995, gan gyflawni

sawl swyddogaeth a gweithio ar sawl prosiect, gan gynnwys y prosiect "MICE-NSC", gwfeistr, gosod aml-lediad IP, lle bu'n hyrwyddo ac yn gwerthuso'r defnydd o gyfathrebu aml-lediad IP, Gwasanaeth Cynghori Technoleg Fideo ledled y Deyrnas Unedig, astudiaethau "Ansawdd Gwasanaeth" IP, gosod rhwydwaith wledig, y defnydd o gyfathrebu a TG, a phrosiect peirianeg meddalwedd mawr o'r enw SCREEN wedi ei gyllido gan arian Ewropeaidd.

Yn 2001, ymunodd Geoff â'r Ganolfan Cefnogi Rhwydwaith Fideo Cymru, menter flaengar a byd-arweiniol a sefydlwyd gyda'r staff wedi'u lleoli yn Abertawe ac Aberystwyth. Penodwyd Geoff yn Swyddog Cynorthwyo Gwasanaethau Fideo, a bu'n gweithio yno tan 2012 gan gefnogi rhai miloedd o ddefnyddwyr y rhwydwaith.

Ers tro bu Geoff yn aelod o Dîm Rheoli Lleol UCU ac yn gynrychiolydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Gweithiodd yn ddiflino yn y swyddi hyn gan gefnogi'r Undeb a buddiannau ei haelodau yn Aberystwyth.

Roedd yn gefnogwr brwd o achosion gwyrdd ac amgylcheddol a bu'n llwyddiannus wrth godi proffil y materion hyn o fewn y Brifysgol. Roedd Geoff yn ymwneud â dau brosiect TGCh Gwyrdd a oedd yn ymchwilio i'r arbedion mewn allyriadau carbon a allai gael eu gwneud trwy ddefnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol. Yn ddiweddar, ef oedd yn gyfrifol am sefydlu'r cynllun bocs llysiâu organig ac roedd yn rhan ganolog o dîm Effaith Gwyrdd Gwasanaethau Gwybodaeth.

Bu farw Geoff Constable ar 30 Gorffennaf 2014, yn 57 oed.

Yr Athro Ivor Gowan (1922 - 2014)

Yn gyn-bennaeth yr Adran Gwyddor Gwleidyddiaeth yn Aberystwyth o 1965 tan 1988, bu'r Athro Ivor Gowan hefyd yn Ddirprwy Brifathro am gyfnod.

Bu Ivor a'i wraig, Gwen, yn driw i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth fel y'i gelwid a chwaraeodd ran fawr yn y gwaith o lywodraethu'r Coleg. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn datganoli yng Nghymru.

Bu hefyd yn allweddol yn annog myfyrwyr o dramor i astudio yn Aberystwyth.

Bu farw Yr Athro Ivor Gowan ar 8 Awst 2014, yn 92 mlwydd oed.

Dr Boris Mitavskiy (1976 - 2014)

Dechreuodd Dr Boris Mitavskiy ei gyflogaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 1 Mai 2011 fel Cynorthwy-ydd Ymchwil gyda Chyfrifo Esblygol a ariennir gan yr EPSRC o fewn yr Adran Gyfrifiadureg.

Cafodd PhD mewn Mathemateg o Brifysgol Michigan ar ôl cwblhau Baglor yn y Gwyddorau mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Talaith Arizona.

Gweithiodd Dr Mitavskiy i sawl prifysgol cyn dod i Aberystwyth gan gynnwys Prifysgol Sheffield, Birmingham a'r Sefydliad A* Biowybodeg yn Singapore. Ynghyd â dau awdur arall, enillodd Boris y papur gorau yng ngwobr y flwyddyn yn 2009 gan yr *International Journal on Intelligent Computing and Cybernetics*.



Roedd yn gweithio ar brosiect *Evolutionary Approximation Algorithms for Optimization: Algorithm Design and Complexity Analysis*. Canolbwyntiodd y prosiect ar ddylunio a dadansoddi algorithmau esblygol brasamcan ar gyfer problemau anodd optimeiddiaeth megis amserlennu a llwybro.

Roedd y prosiect yn golygu astudio a chymharu gwahanol fathau o algorithmau esblygol, gan gynnwys algorithmau genetig, algorithmau imiwnedd artiffisial, optimeiddiaeth nythfa morgrug ac amcangyfrif o algorithmau dosbarthu, ac yn cyfuno gwyddoniaeth gyfrifiadurol ddamcaniaethol draddodiadol a chyfrifiant esblygol. Mae'r prosiect hwn yn un ar y cyd â phartneriaid ym Mhrifysgol Birmingham.

Bu farw Dr Boris Mitavskiy ar 10 Gorffennaf 2014, yn 38 mlwydd oed.

Yr Athro David Robert Gwilliam (1953 – 2014)

Bu'r Athro Gwilliam yn gweithio i'r Brifysgol o 1978 hyd 1989, gan ddod yn ôl yn 1992 pan apwyntiwyd ef i Gadair Ernst a Young. Bu yma nes iddo gael Cadair ym Mhrifysgol Caerwysg lle y bu'n Bennaeth Adran tan iddo ymddeol ym mis Hydref 2013.

Ganed David Gwilliam yn Bromsgrove, Swydd Caerwrangon, ar ddydd lau 12 Mawrth, 1953. Ar ôl symud i Lundain aeth i ysgol Dulwich Hamlet ac yna i Ysgol Birkenhead yng Nghilgwri.

Aeth ymlaen i Goleg y Drindod, Caergrawnt yn 1971, lle yr enillodd Ysgoloriaeth i ddarlenn Economeg. Dychwelodd i Gaergrawnt yn Gymrawd yng Ngholeg Churchill ar ôl iddo gymhwyso'n Gyfrifydd Siartredig gyda Price Waterhouse.

Ar ôl hynny, cafodd Gadeiriau mewn Cyfrifeg ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Chaerwysg, a bu'n athro ymweld yn Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Monash ym Melbourne Awstralia, ac yn aelod o Banel Cyfrifeg a Chyllid yn Asesiad Ymchwil 1998.

Traddododd 7fed Ddarlith Goffa Tom Robertson ym Mhrifysgol Caeredin yn 1989 a Darlith PD Leake yn Sefydliad Cyfrifeg

Siartredig Cymru a Lloegr yn 2003.

Yn 2013, cafodd Wobr Cyflawniad Oes gan Gymdeithas Cyfrifeg a Chyllid Prydain, ac yntau'n aelod gweithgar a dylanwadol iawn o Gynhadledd Athrawon Prifysgolion y Gymdeithas honno.

Bu farw'r Athro David Robert Gwilliam ar 31 Awst 2014 yn 61 mlwydd oed.



Annwen Frost (1946 - 2014)

Gyda thristwch mawr y nodwn farwolaeth Mrs Annwen Frost, a fu farw ddydd Mercher, 10 Medi, 2014, yn 67 mlwydd oed.

Ymunodd Annwen â'r Adran Addysg Barhaus fel Ysgrifenyddes Cymraeg i Oedolion yn 1995, a bu'n gweithio

am gyfnod yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg, ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, gyda'r Darlithydd â Chyfrifoldeb dros Gymraeg i Oedolion.

Bu cyfraniad Annwen yn dra phwysig i ddatblygu rôl Prifysgol Aberystwyth fel darparwr cyrsiau Cymraeg i Oedolion dwys ac uwch, a hynny dros ardal eang a ymestynnai o Harlech yn y gogledd i Landeilo yn y de ac i Dyddewi yn y gorllewin. Symudodd Annwen i wneud yr un gwaith yn y Ganolfan Addysg Barhaus newydd, yn 10 Maes Lowri, Aberystwyth, yn 2003.

Annwen hithau a wasanaethai'r Cwrs Haf (Wlpan Awst gynt), sef y cwrs haf preswyl i ddysgwyr Cymraeg o bob safon, a gynhelir ar gampws Prifysgol Aberystwyth, bob haf, nes iddi hi gymryd ymddeoliad cynnar, yn 2011, oherwydd salwch tymor hir.

Caiff Annwen ei chofio fel person hynod o weithgar a chydwybodol, oedd yn hoff iawn gan bawb a ddaeth i gysylltiad â hi. Roedd ei brwdfrydedd dros y gwaith a wnâ'n heintus. Câi ei phersonoliaeth siriol a'i hagwedd gadarnhaol ei gwerthfawrogi'n fawr iawn gan ei chydweithwyr a myfyrwyr fel ei gilydd. Roedd hi'n fodlon mynd y filltir ychwanegol i helpu eraill, ac i hyrwyddo'r achos Cymraeg i Oedolion bob amser.

TaMed Da a TaMedbach, Penbryn

Mae ein bwyty sydd wedi ennill sawl gwobr yn cynnig bwyd o safon am bris rhesymol.

I weld yr amseroedd agor diweddaraf ewch i:

<http://www.aber.ac.uk/cy/hospitality/opening-hours/>

neu edrychwch ar yr hysbysfwrdd yn Nerbynfafa Penbryn

Mae gennym hefyd bapurau newydd dyddiol, teledu ac ardal ddeciau pan fydd y tywydd yn braf.

Gwasanaethau **Croeso - Hospitality Services**

BETH SY'YMLAEN

ARDDANGOSFEYDD YR YSGOL GELF

Dydd Llun 13 Hydref – Dydd Gwener 21 Tachwedd

'Contemporary Chinese Printmaking'



Li Zhao, 'Blynnyddoedd Cyffrous', lithograff

Mae'r arddangosfa hon a guradwyd gan Paul Croft a deithiodd i Changsha yn ddiweddar, yn cynnwys printiau gan artistiaid o Gymdeithas Gwneuthurwyr Printiau Hunan a myfyrwyr o Brifysgol De Canol Changsha, Prifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Hunan a Phrifysgol Normal Changsha.

'Mythscales in the Watery Realm'

Arddangosfa o brintiau Prosiect Celf-Gwyddoniaeth Gydweithrediadol rhwng Gwneuthurwyr Printiau Aberystwyth ac IMPRESS, Brisbane. Cyllidwyd gan Gyngor Ymchwil Awstralia a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.



Jenny Sanzaro-Nishimura 'Flow' serigraff

Dydd Llun 1 Rhagfyr – Dydd Gwener 6 Chwefror

'(Im)memorabilia: Ephemerality, Resonance and the Collector's Item'

Arddangosfa a guradwyd gan Harry Heuser

Susan Fraser-Hughes: Arddangosfa PhD

Arddangosfa o weithiau gan fyfyrwr PhD Celfyddyd Gain, Susan Fraser-Hughes.

TYMOR YR HYDREF YNG NGHANOLFAN Y CELFYDDYDAU

Cyfnod i Ystyried Rhyfel

Yr hydref hwn, wrth i ni gofio dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, mae Canolfan y Celfyddydau yn cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau yn ymchwilio, yn dehongli ac yn canfod ysbrydoliaeth yn effeithiau rhyfel drwy'r holl fyd a thrwy pob canrif.

Mae'r gwaith yn cynnwys: Arddangosfa Tim Shaw RA *Black Smoke Rising* yn Oriol 1 (4 Hydref – 22 Tachwedd), arddangosfa hynod bwerus yn sôn am wrthdaro dynol drwy'r oesoedd. Bydd Tim yn rhoi sgwrs rhad ac am ddim am ei waith ar 3ydd Hydref.



Tim Shaw

War Correspondents gan Helen Chadwick (21 Hydref), perfformiad theatr gerdd teimladwy sy'n defnyddio tystiolaethau go iawn i bortreadu storïau hynod a phrofiadau a newidiodd fywydau rhai newyddiadurwyr rhyfel.

Rites of War gan Gravity & Levity (8 Tachwedd), perfformiad dawns awyrol gwfreiddiol yn portreadu effaith rhyfel ar bobl gyffredin wedi ei gyfuno gyda ffilm, barddoniaeth, miwsig a sylwebaeth ar newyddion. Mae gohebydd BBC Afghanistan, David Loyn, a gynghorodd ar



Rites of War

y cynhyrchiad yn wreiddiol o Bontgoch.

Symposiwm gyhoeddus arbennig, *Politics, Performance and Ethics* a drefnir ar y cyd â'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Mae gweithdai ar gael gyda *War Correspondents* a *Rites of War*.

Am ragor o wybodaeth am bob un o'r digwyddiadau hyn, ewch i wefan Canolfan y Celfyddydau: www.aberystwythartscentre.co.uk

Mae Abertoir yn dod!

Bydd nawfed Gŵyl Arswyd Abertoir yn cael ei chynnal o 11eg hyd 16eg Tachwedd yng Nghanolfan y Celfyddydau – chwe diwrnod gorlawn o berfformiadau cyntaf ffilmiau, hoff glasuron, sgysia, cerddoriaerh a theatr.

Mae digwyddiadau arbennig yn cynnwys dangosiad tri dimensiwn arbennig o glasur Vincent Price *House of Wax*; ymddangosiadau ar wahoddiad gan ffefryn y ffilmiau arswyd, yr actor Ian McCulloch; dadl ynglŷn â fideos ffaidd dan arweiniad yr Athro Martin Barker; taith arbennig ar yr 'Abertoir Express' wrth i Reilffordd Cwm Rheidol fod yn gartref i noson o adrodd storïau a pherfformiad o *Horror Express* ar y platform ei hun; a pherfformiad o *The Temple* HP Lovecraft, addasiad atmosfferiaidd o'r stori o feddiannu a gwallgofrwydd. Rhywbeth na feiddiuch ei goll!

Mae'r holl fanylion eraill ar gael ar wefan Abertoir: www.abertoir.co.uk



The Temple

ATHROFEYDD AC ADRANAU ACADEMAIDD

Pwy yw Pwy?

ATHROFA GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG (IBERS)



Cyfarwyddwr yr Athrofa
Yr Athro Mike Gooding
(dechrau yn y swydd Hydref 1af)
TBC
01970 623001



Rheolwr yr Athrofa
Emyr Phillips
emp24@aber.ac.uk
01970 622961



Manylion pellach: www.aber.ac.uk/cy/ibers/

ATHROFA ADDYSG, DATBLYGU PROFFESIYNOL A GRADDEDIGION



Cyfarwyddwr yr Athrofa
Yr Athro Tim Woods
tww@aber.ac.uk
01970 621775



Rheolwr yr Athrofa
Annette Davies
amd@aber.ac.uk
01970 628683

Mae'r Athrofa Addysg, Datblybu Proffesiynol a Graddedigion hefyd yn cynnwys Canolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd, Ysgol y Graddedigion, Gwasanaeth Gyrfaoedd, Canolfan y Saesneg Ryngwladol, a Chymorth Dysgu i Fyfrwyr.

Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes



Cyfarwyddwr: Yr Athro Malcolm Thomas
mlt@aber.ac.uk
01970 622102

Manylion pellach: www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/iepgd/

ATHROFA DAEARYDDIAETH, HANES, GWLEIDYDDIAETH A SEICOLEG



Cyfarwyddwr yr Athrofa
Yr Athro Neil Glasser
nfg@aber.ac.uk
01970 622785



Rheolwr yr Athrofa
Jackie Sayce
jqs@aber.ac.uk
01970 622212

Manylion pellach: www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/ighpp/

Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear



Pennaeth Adran:
Yr Athro Rhys Jones
raj@aber.ac.uk
01970 622594

Adran Hanes a Hanes Cymru



Pennaeth Adran:
Yr Athro Martyn Powell
mpp@aber.ac.uk
01970 622870

Adran Seicoleg



Pennaeth Adran:
Dr Nigel Holt
nih12@aber.ac.uk
01970 628526



Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol



Pennaeth Adran:
Dr Jennifer Mathers
zzk@aber.ac.uk
01970 622705



ATHROFEYDD AC ADRANNAU ACADEMAIDD

ATHROFA LLENYDDIAETH, IEITHOEDD A'R CELFYDDYDAU CREADIGOL



Cyfarwyddwr yr Athrofa
Yr Athro Sarah Prescott
scp@aber.ac.uk
01970 622534



Rheolwr yr Athrofa
Kath Williams
ktw@aber.ac.uk
01970 621535
Manylion pellach:

Manylion pellach:
www.aber.ac.uk/cy/illca/

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Chanolfan Cerddoriaeth y Brifysgol hefyd wedi eu cynnwys yn yr Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol.

Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu



Pennaeth Adran:
Dr Anwen Jones
aej@aber.ac.uk
01970 621659

Yr Ysgol Gelf



Pennaeth Adran:
Yr Athro Robert Meyrick
rtm@aber.ac.uk
01970 622464

Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol



Pennaeth Adran:
Dr Louise Marshall
lom@aber.ac.uk
01970 622988

Adran Ieithoedd Ewropeaidd



Pennaeth Adran:
Yr Athro David Trotter
dtt@aber.ac.uk
01970 622551

Adran y Gymraeg



Pennaeth Adran: Dr Cathryn Charnell-White
(ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd)
ctc@aber.ac.uk
01970 622851



ATHROFA RHEOLAETH, Y GYFRAITH A GWYDDOR GWYBODAETH



Cyfarwyddwr yr Athrofa
Yr Athro Andrew Henley
anh31@aber.ac.uk
01970 622511



Rheolwr yr Athrofa
Adrian Harvey
avh@aber.ac.uk
01970 622368

Manylion pellach: www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/imlis/

Adran y Gyfraith a Throsedd



Pennaeth Adran:
Yr Athro John Williams
jow@aber.ac.uk
01970 622735

Adran Astudiaethau Gwybodaeth



Pennaeth Adran:
Dr Allen Foster
aef@aber.ac.uk
01970 622189

Adran Ysgol Rheolaeth a Busnes



Pennaeth Adran:
Yr Athro Steve McGuire
sbm@aber.ac.uk
01970 622200



ATHROFA MATHEMATEG, FFISEG A CHYFRIFIADUREG




Cyfarwyddwr yr Athrofa
Yr Athro Qiang Shen
qqs@aber.ac.uk
01970 621825



Rheolwr yr Athrofa
Dave Smith
dhs@aber.ac.uk
01970 622446

Manylion pellach: www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/impacs/

Adran Cyfrifiadureg



Pennaeth Adran:
Dr Bernie Tiddeman
bpt@aber.ac.uk
01970 621777

Adran Ffiseg



Pennaeth Adran:
Yr Athro Andy Evans
dne@aber.ac.uk
01970 622800

Adran Mathemateg



Pennaeth Adran:
Yr Athro Simon Cox
sxc@aber.ac.uk
01970 622764

